OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1304 (Cy. 258)

# NEWID YN YR HINSAWDD, CYMRU

## Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Rhagfyr 20185 Rhagfyr 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Rhagfyr 2018* |

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad yn unol ag adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**).

Cyn i'r drafft gael ei osod, roedd Gweinidogion Cymru—

(a) wedi eu bodloni bod pob targed allyriadau interim yn cael ei osod ar lefel sy'n gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050, yn unol ag adran 32(1) o'r Ddeddf;

(b) wedi rhoi sylw i'r materion a restrir yn adran 32(3) o'r Ddeddf; ac

(c) wedi cael cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd(**2**), ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, yn unol ag adran 49(1) o'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 30(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

### Targedau Allyriadau Interim

**2.**—(1) Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2020 yw 27% islaw'r waelodlin.

(2) Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2030 yw 45% islaw'r waelodlin.

(3) Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2040 yw 67% islaw'r waelodlin.

(**1**) 2016 dccc 3.

(**2**) Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yw'r corff cynghori perthnasol i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 44(3) o Ddeddf 2016.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

5 Rhagfyr 2018

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer targedau allyriadau interim o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Diben Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na gwaelodlin 1990.

Mae adran 30 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau er mwyn gosod targedau allyriadau interim ar gyfer y blynyddoedd 2020, 2030 a 2040. Mae'r targedau hyn yn cael eu mynegi fel canran islaw'r waelodlin.

Mae rheoliad 3 yn gosod targedau i leihau cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer blynyddoedd targed interim 2020, 2030 a 2040.

Yn unol ag adran 32 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y targedau allyriadau interim yn gyson â chyrraedd targed 2050, ac wrth ddrafftio'r Rheoliadau hyn maent wedi rhoi sylw i'r ffactorau a restrir yn adran 32(3).

Yn unol ag adran 49 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y corff cynghori, ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, cyn gosod rheoliadau drafft.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.